*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Entrepreneuriaeth a Menter

## Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw amlinellu bwriad CCAF i gynnig ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuraidd i ehangu gorwelion dysgwyr a chaniatáu cyfleoedd iddynt gynyddu eu potensial gan gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd y coleg a'r gymuned. Manteisio ar y cyfleoedd i ddysgwyr ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni eu dyheadau; ysbrydoli unigolion ar gyfer economi fedrus. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i gynyddu eu potensial i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, astudiaeth bellach neu symud ymlaen i addysg uwch a / neu gyflogaeth fel y bo'n briodol i bob unigolyn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sydd â rôl sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm o fewn y coleg.

## Datganiadau Polisi

Sicrhau dull cydlynol a chydweithredol ledled y coleg tuag at daith unigol y dysgwyr, gan gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llwyddiannus dysgwyr gan gynnwys presenoldeb, cyflawniad a dilyniant.

Sicrhau y bydd gan ddysgwyr brofiad uniongyrchol neu gysylltiedig o'r gweithle a datblygu cysylltiadau gwaith ffurfiol effeithiol gyda chyflogwyr drwy fewnbwn y cwricwlwm.

Cynorthwyo dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau menter, ffeiriau gyrfaoedd a chysylltiedig â gwaith, ac i gael mynediad at weithdai, sesiynau hyfforddi, cystadlaethau a dosbarthiadau meistr.

Datblygu cymuned o ddysgwyr coleg gan gynnwys undeb myfyrwyr CCAF gweithgar a gweladwy.

Darparu addysg entrepreneuriaeth a chyfoethogi o ansawdd uchel yn unol â Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu hymestyn a'u herio drwy ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth priodol.

Bydd y coleg yn cynnal ei bartneriaeth a'i berthynas â Gyrfa Cymru ac yn eu datblygu ymhellach.

Sicrhau mai nod rhaglenni Gyrfaoedd, Profiad Gwaith Cysylltiedig a Chyfoethogi ffurfiol y Coleg yw cwrdd â Safonau Cenedlaethol a darparu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r cyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael. Nod y Coleg yw cynorthwyo dysgwyr wrth ddewis gyrfa a chyflogaeth.
Egwyddorion

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y polisi hwn:

Mae egwyddorion Gatsby yn rhan gynhenid o'r holl wasanaethau a ddarperir gan y timau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth ac maent yn ymgorffori'r wyth meincnod arfer orau i'w cefnogi i ddod yn entrepreneuraidd a ffynnu mewn amrywiaeth o amgylcheddau gwaith.

Tra yn y coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

Rhaid cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial tra yn y Coleg, mewn amgylchedd lle mae eu **llesiant** yn cael ei gyflawni fel eu bod yn teimlo'n dda amdanynt eu hunain ac yn parchu eraill.

Mae ymrwymiad i ddulliau adferol yn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddull "coleg cyfan" o ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i **ddatblygu** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau

- Darparu amrywiaeth o fecanweithiau cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Sicrhau bod unrhyw leoliadau profiad gwaith neu interniaethau yn cael eu trefnu gan y Coleg yn unol â'r polisi Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (CIAG).

Sicrhau bod y Coleg yn cynnal ei achrediad Nod Gyrfa Cymru a Dyfarniadau Matrics.

Cynorthwyo dysgwyr i wireddu eu potensial llawn drwy ystod o weithgareddau cyfoethogi ac entrepreneuriaeth i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer byd gwaith a bod ganddynt well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n pennu llwyddiant economaidd.

Datblygu gwasanaeth cynhwysfawr a chydweithredol sy'n gweithio'n agos gyda thiwtoriaid cwrs i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfleoedd i:

Mynychu amrywiaeth o weithdai rhyngweithiol a digwyddiadau entrepreneuraidd.
Datblygu clybiau a chymdeithasau a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at sgiliau cymdeithasol y dysgwyr a bywyd cymunedol y coleg
Cymryd rhan weithgar mewn digwyddiadau a chystadlaethau entrepreneuriaeth
Cystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau Sgiliau Cymru
Manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad rhyngwladol drwy gymryd rhan mewn cyfnewidiadau a theithiau.

## Cyfrifoldebau

Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am:

- Gymeradwyo'r Polisi hwn

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi hwn.

Polisïau Cysylltiedig
Polisi Derbyniadau
Cynllun Addysgu a Dysgu
Polisi Tiwtorialau
Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
Polisi Entrepreneuriaeth a Menter
Polisi Ansawdd
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Polisi Datblygu Staff
Polisi Diogelu Data

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Gweithdrefn Derbyn
Gweithdrefn Addysg yn Gysylltiedig â Gwaith
Polisi Entrepreneuriaeth a Menter
Gweithdrefn Datblygu Staff
Gweithdrefn Ymweliadau Addysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **19eg Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol: Deon Taith y Dysgwr** | |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol:** | **Pennaeth Cynorthwyol, Taith y Dysgwr** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | **19eg Mehefin 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |